| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Mai 2023 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cyng. Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Andy Clark, Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| **Awdur yr adroddiad** | Peter Clayton, Rheolwr Prosiect Corfforaethol |
| **Teitl** | Cam 2 o Gontract Gwaith - Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Cyngor Sir Ddinbych newydd, Ymestyn Ystâd Ddiwydiannol Colomendy - Diweddariad |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa o ran gwaith Cam 2 i gwblhau'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd, ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych. Mae hefyd yn gofyn am benderfyniad i gefnogi'r bwriad arfaethedig o symud ymlaen i gwblhau'r prosiect wedi i'r prif gontractwr fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ac mae'n rhoi diweddariad ar bwysau cyllideb oherwydd y sefyllfa honno.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn am gefnogaeth i'r ffordd ymlaen a ffefrir i gwblhau gwaith Cam 2 yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn Ninbych wedi i'r prif gontractwr fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a rhoi diweddariad ar bwysau cyllideb oherwydd y sefyllfa honno.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

3.2. Bod y Cabinet yn cefnogi'r ffordd ymlaen a ffefrir i gwblhau gwaith Cam 2 yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.

3.3. Bod y Cabinet yn cydnabod y pwysau diweddaraf ar y gyllideb ac yn cytuno i barhau i weithio ar risg wrth i drafodaethau am ffynonellau cyllid posibl ar gyfer y pwysau gael eu cynnal â Llywodraeth Cymru. Mae angen hyn er mwyn lliniaru'r risg o oedi pellach fyddai'n effeithio eto ar gostau a'r rhaglen, yn cynnwys y rhaglen ehangach o newid mewn gwasanaeth y mae cwblhau'r Orsaf yn hanfodol ar ei chyfer.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Dyfarnwyd Contract Dylunio ac Adeiladu NEC4 ECC i RL Davies & Son Ltd ym mis Mehefin 2022 i gyflawni Cam 2 y gwaith i gwblhau'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yng Ngholomendy, Dinbych. Mae angen yr Orsaf newydd i gefnogi'r newid yn y model casglu gwastraff a gynigir o fis Mawrth 2024, pan fydd y Cyngor yn symud i'r glasbrint casglu sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru.

4.2. Dechreuodd RLD ar y gwaith ar Gam 2 ar y safle ym mis Awst 2022 ond yn anffodus, ar 16 Chwefror 2023, cawsant eu rhoi yn nwylo'r Gweinyddwyr. Ar y pryd, amcangyfrifwyd mai cost Cyfrif Terfynol Cam 2 oedd £6.9 miliwn yn erbyn cyllideb yn cynnwys Arian At Raid o £7.022 miliwn. Cyfwynwyd adroddiad ar benodiad gwreiddiol RLD a therfynu'r contract wedi iddynt gael eu rhoi yn nwylo'r gweinyddwyr gerbron y Cabinet ar 25 Mawrth 2023.

4.3. Ers 16 Chwefror, ac er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd yn ei flaen ar y safle ac i liniaru'r oedi, cytunwyd y byddai Adroddiad Eithrio yn cael ei baratoi i ganiatáu i'r Cyngor godi archebion a thalu'n uniongyrchol i isgontractwyr oedd yn gweithio i RLD, tra bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y ffordd ymlaen yn y tymor hirach. Mae hyn wedi caniatáu i'r gwaith barhau ar y safle i liniaru'r effaith ar y rhaglen.

4.4. Fel rhan o'r Eithriad tymor byr, sefydlwyd Is-gontractau safonol byr NEC4 ECC ag isgontractwyr i aros am y penderfyniad am y ffordd ymlaen yn y tymor hirach.

4.5. Cafodd nodyn briffio ei baratoi i ddechrau i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ddiwedd mis Chwefror wedi i RLD fynd i ddwylo'r gweinyddwyr i roi diweddariad ar y sefyllfa a nodi dewisiadau ar gyfer y ffordd ymlaen, sydd bellach wedi'i ddiweddaru ac sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

4.6. O’r dewisiadau a amlinellir yn Atodiad 1, Dewis 4 yw’r dewis a ffefrir sy’n cael ei argymell erbyn hyn, ble bydd CSDd yn parhau i weithredu fel Contractwr Rheoli gyda nifer o Is-gontractau Byr NEC4 ECC gyda’r isgontractwyr a’u pecynnau a etifeddwyd gan RLD a gyda’r Is-gontractwr Sifil a benodwyd fel Prif Is-gontractwr gan CSDd i gymryd cyfrifoldeb dros reoli’r safle, Iechyd a Diogelwch, cydymffurfio â Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu, darparu Yswiriant Pob Risg i Gontractwyr ar gyfer y safle a rheoli nifer gyfyngedig o becynnau isgontractwyr. Yn ei hanfod, wrth ddilyn y dewis a ffefrir, byddwn yn ffurfioli’r trefniadau a roddwyd ar waith dan yr Adroddiad Eithrio sydd wedi caniatáu i’r gwaith barhau ers diwedd mis Chwefror.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y penderfyniad yn cyfrannu at Thema 6 y Cynllun Corfforaethol: *Sir Ddinbych mwy gwyrdd*, a *9: Cyngor sy’n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio’n dda* drwy hwyluso cynnydd yn y cyfraddau ailgylchu i fodloni targed Llywodraeth Cymru o 70% o 2024/25 ymlaen a chaniatáu i’r Gwasanaeth Gwastraff reoli casgliadau gwastraff yn fwy effeithlon a hwyluso’r gwaith didoli a bwndelu ffrydiau gwastraff a gasglwyd, fydd wedyn yn gallu cael ei froceru i greu incwm.

5.2. Bydd y penderfyniad yn gwneud cyfraniad positif at nod y Cyngor o fod yn Ddi-garbon Net ac yn Bositif yn Ecolegol erbyn 2030 drwy osod Pympiau Gwres yr Awyr, System Casglu Dŵr Glaw a phaneli Ffotofoltäig yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd ynghyd â chyfleusterau i gefnogi fflyd o Gerbydau Trydan.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ar ôl i RLD fynd i ddwylo’r gweinyddwyr, mae gwaith wedi bod ar y gweill i gysylltu ag isgontractwyr i gadarnhau eu costau pecyn tendro a chostau i gwblhau yn seiliedig ar y ffordd ymlaen a ffefrir.

6.2. Yr amcangyfrif diweddaraf o’r costau i gyflawni gwaith contract Cam 2 hyd at gwblhau yw £7,547,739 yn erbyn cyllideb (yn cynnwys Arian At Raid ar gyfer Cam 2 ar yr adeg pan aeth RLD i ddwylo’r gweinyddwyr) o £7,021,951. Yn ychwanegol, amcangyfrifir £207,550 pellach i gynnwys costau nifer o eitemau y tu allan i waith y contract yn cynnwys cysylltiadau cyfleustodau, costau ychwanegol yn gysylltiedig â’r gwaith tirlunio / ffensio a ffioedd mewnol ac allanol ychwanegol i reoli gweddill y

contract dan y trefniant arfaethedig. Hefyd, awgrymir y dylid dyrannu Arian At Raid o £157,649, sy'n seiliedig ar 5% o amcangyfrif o werth y gwaith hyd at gwblhau o ddiwedd mis Mai 2023. Felly yn gyffredinol mae pwysau ar y gyllideb o £890,987. Mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 3.

6.3. Mae trafodaethau ar y gweill â Llywodraeth Cymru i weld a ydynt yn gallu/yn barod i ymdrin â'r pwysau diweddaraf ar y gyllideb o £890,987. Er na chafwyd ymateb ffurfiol ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, rhagwelir y byddwn yn cael ymateb ffurfiol erbyn diwedd mis Mai, a gobeithio cyn cyfarfod y Cabinet ar 23 Mai. Os bydd raid i'r Cyngor ariannu'r pwysau yn llawn, yn cynnwys yr Arian At Raid, mae hyn yn golygu £56,000 o Fenthyca Darbodus ychwanegol yn seiliedig ar gyfradd bresennol o 4.58% dros 25 mlynedd.

6.4. Bydd yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn cynnwys technolegau i leihau ôl troed carbon drwy ddefnyddio ystod eang o baneli Ffotofoltäig, pympiau gwres yr awyr, casglu dŵr glaw a gosod mannau gwefru Cerbydau Trydan er mwyn gallu symud i fflyd o Gerbydau Trydan.

6.5. Mae'r cyllid ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect yn rhan o becyn ariannu ehangach i gefnogi'r gwaith mwy cyffredinol o Ailfodelu Gwasanaethau Gwastraff, ac mae'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd arfaethedig yn ffurfio elfen allweddol ohono.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Atodiad 2 am wybodaeth bellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les a gynhaliwyd ar gyfer Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff yn gyffredinol lle mae'r datblygiad ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn elfen allweddol i gefnogi'r model ar gyfer gwasanaethau newydd arfaethedig. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Chaffael a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi bod yn rhan o drafodaethau am y dewisiadau tymor byr a thymor hir i gyflawni Cam 2.

8.2. Mae **Grŵp Ardal Aelodau Dinbych** yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chynigion ar gyfer datblygu yn cynnwys Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd

arfaethedig Cyngor Sir Ddinbych drwy eitem sefydlog ar Agenda'r Grŵp. Y tro diwethaf iddynt ymweld â'r safle oedd 21 Ebrill 2023 i weld cynnydd.

8.3. Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant ac Aelod Arweiniol Cyllid a chawsant y wybodaeth ddiweddaraf drwy eu safle ar y **Bwrdd Prosiect.**

8.4. Cafodd yr egwyddor gyffredinol o ddatblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd i gefnogi'r newid cyffredinol i'r gwasanaeth gwastraff ei gymeradwyo'n wreiddiol yn y **Grŵp Gwella Gwasanaeth a'r Cabinet** ym mis Rhagfyr 2018 a chafodd diweddariadau pellach ar gynnydd eu cyflwyno yn **Sesiwn Friffio'r Cabinet** a'r **Pwyllgor Craffu Cymunedau** yn ystod 2019, 2021 a 2022 ac yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2023 ar gynnydd yn cynnwys y diweddaraf ar yr Orsaf. Hefyd, aeth y mater o brynu tir yng Ngholomendy, Dinbych a datblygiad yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff arfaethedig ar y tir hwnnw fel dewis a ffefrir gerbron y **Grŵp Rheoli Asedau** ym mis Mawrth 2019.

8.5. Ymgynghorwyd â'r **Prif Swyddog Ariannol** – gweler yr ymateb isod:

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

9.1. Mae'r adroddiad yn gosod cefndir y sefyllfa y mae'r prosiect yn ei wynebu'n glir. Er bod y pwysau a nodwyd yn amlwg yn newyddion siomedig, croesewir y ffaith bod swyddogion wedi llunio cynllun ar gyfer symud ymlaen. Oherwydd y rhagolwg ariannol anodd iawn a amlinellwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Ebrill, os na fydd cyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru i helpu i ariannu gorwariant y prosiect, mae'n bosibl y bydd yn rhaid oedi prosiectau eraill.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Rheoli is-gontractwyr - bydd angen i Gyngor Sir Ddinbych barhau â'r berthynas agos ag is-gontractwyr allweddol sy'n gweithio ar Gam 2 i sicrhau ein bod yn ymdrin ag unrhyw faterion fel maent yn codi i liniaru problemau a sicrhau bod y gweithgareddau'n dilyn y rhaglen. Yn seiliedig ar yr adolygiad diweddaraf o'r Rhaglen, rhagwelir o hyd y bydd Cam 2 yn cael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2023.

10.2. Pwysau pellach ar gostau - mae arian at raid o 5% wedi ei gynnig yn y cynllun diwygiedig i ddelio ag unrhyw bwysau pellach ar gostau / pethau na ellir eu rhagweld.

10.3. Llwyth gwaith parhaus i dîm allweddol Cyngor Sir Ddinbych - wedi ei gynnwys yn y gyllideb ychwanegol costau diwygiedig ar gyfer cymorth / adnoddau mewnol parhaus.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. a.24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.